Taid Jôs a Nyth y Robin Goch

Gofal / Gwneud Cymwynas

Taid Jôs oedd o i bawb o blant y pentref. Roedd ganddo ardd fawr wrth ymyl yr eglwys a byddai'r plant i gyd yn eu tro yn troi i mewn i gael sgwrs efo Taid Jôs. Dyn caredig distaw oedd Taid Jôs a llond ei boced bob amser o bethau da i'w rhannu â'r plant. Pan fyddai'r plant yn yr ardd efo Taid Jôs mi fyddai'n siŵr o ddangos pethau diddorol iddyn nhw.

Mis Ebrill oedd hi a'r ardd yn dechrau glasu ar ôl i'r gaeaf fynd heibio. Roedd tri o'r plant wedi dod draw i sgwrsio efo Taid Jôs gan ei bod hi'n wyliau'r Pasg.

"Mi ydw i isio i chi ddod i mewn i'r sied efo mi," meddai wrth y plant, "ond mae'n rhaid i chi fod yn ddistaw bach. Dim smic rwan" gan roi ei fys dros ei geg.

Dilynodd y plant Taid Jôs yn ddistaw bach i mewn i'r sied.

"Welwch chi'r got fawr yna sy'n hongian ar y bachyn fan acw. Honna fyddai'n wisgo pan fyddai'n gweithio yn yr ardd yn y gaeaf", sibrydodd Taid Jôs.

"Y got frown yna", meddai un o'r plant yn uchel.

"Sh" meddai Taid Jôs a rhoi ei fys ar ei geg unwaith yn rhagor.

"Wel, yn y boced yna ar y chwith mae yna robin goch yn nythu. Dwi'n siwr bod yr iâr ar y nyth, yn y boced, y munud yma," sibrydodd Taid Jôs unwaith yn rhagor. Doedd y plant ddim yn deall. Sut oedd robin yn gallu mynd yn ôl a blaen pan oedd drws y sied wedi ei gloi gyda'r nos.

"Wel edrychwch chi'n oflaus," meddai Taid Jôs, "mi rydw i'n gadael y ffenestr acw yn agored drwy'r dydd a'r nos. Mi rydw i wedi gweld y robin yn mynd a dod drwy'r ffenestr."

"Oes yna gywion yn y nyth?" gofynnodd un o'r plant mewn llais uchel unwaith yn rhagor.

"Sh" meddai Taid Jôs, "na dydw i ddim yn meddwl. Rhyw bedwar i bump diwrnod yn ôl y gwelais i robin yn dechrau mynd a dod drwy'r ffenestr. Felly mae'n bur debyg mai newydd ddodwy wyau oedd yr iâr."

"Edrychwch" meddai un o'r plant yn sydyn, " mae yna robin goch yn y ffenestr. Felly does yna ddim un ar y nyth yn y boced."
"Wel oes" meddai Taid Jôs. "Mae'r ceiliog a'r iâr yn debyg iawn i'w gilydd. Mae gan y ddau fron goch ac mae'r ddau yn edrych i ni run fath."
"Ydi o'n beth anarferol i robin nythu ym mhoced eich côt, Taid Jôs" holodd un o'r plant.
"Ylwch, mi awn ni allan i'r ardd er mwyn i'r adar gael llonydd."
Ac allan â nhw i'r ardd i eistedd ar y fainc o dan y goeden afalau.
"I ateb eich cwestiwn," meddai Taid Jôs, "mae robin goch yn nythu mewn lleoedd rhyfedd iawn. Mi glywais i am robin yn nythu mewn hen degell mewn gwrych yng ngardd hen ffrind i mi. Mi glywais i hefyd am robin oedd wedi nythu mewn blwch postio ac mi fuo rhaid i'r Post Brenhinol ofyn i bobl beidio â phostio eu llythyrau yn y blwch rhag iddyn nhw darfu ar y teulu bach."
"Be ddigwyddodd wedyn?" holodd un o'r plant.
"Wel, ar ôl i'r cywion adael y nyth mi roedd popeth yn iawn wedyn i bobl bostio eu llythyrau. Ond wyddoch chi yr hanesyn mwya diddorol glywais i am bâr o robinod oedd y rheiny wnaeth godi nyth mewn tas wair. Fel y gwyddoch chi mae tas wair yn le cynnes, clos iawn. Ond wnaeth yr wyau ddim deor o gwbl, roedd y gwres o'r das wair wedi'u crasu nhw bron. Hen dro yn te!"
Byddai plant yr ardal wrth eu bodd yn gwrando ar straeon Taid Jôs.
"Hei lwc i'r nyth hwn ym mhoced fy nghot gan obeithio na chawn ni wanwyn oer neu mi fydda i wedi rhynnu i farwolaeth heb fy nghot fawr."

Diolch i Ti, O Dduw, am ryfeddodau sy'n digwydd o'n cwmpas a diolch hefyd am bobl fel Taid Jôs. Amen.

✦ Pam ydych chi'n meddwl fod y robin yn gwneud ei nyth mewn lleoedd rhyfedd?
✦ Sut fuasech chi'n disgrifio Taid Jôs?